Ysgol Gyfun Garth Olwg

Prifathro / Headteacher
Mr. Trystan Edwards BSc., C.P.C.P.

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ (01443) 57 00 57
gweinyddol@gartholwg.cymru
www.gartholwg.cymru

Mai, 2018

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Arholiad Mewnol Haf 2018 - Blynyddoedd 7, 8 a 9

Cynhelir arholiadau mewnol ysgrifenedig mewn pynciau penodol yn ystod y cyfnod **13eg – 15fed o Fehefin 2018**. Mae'r rhain wedi eu hanelu at fesur cyrhaeddiad a chynnydd mewn agweddau o'r pynciau dan sylw. Mae'r manylion penodol ynghylch amseriad y gwahanol arholiadau ar gael ar ein gwefan: https://bit.ly/2KGqe6h

Bydd disgyblion Blwyddyn 9 yn sefyll arholiad yn y pynciau craidd, Cymraeg, Saesneg a Mathemateg ond nid mewn Gwyddoniaeth. Yn ogystal, byddant yn cwblhau papurau/gweithgareddau yn y pynciau opsiwn maent eisoes wedi eu dewis ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Fel yng nghyd-destun y Profion Cenedlaethol diweddar, gofynnwn yn garedig am eich cydweithrediad wrth sicrhau presenoldeb llawn eich mab/merch yn ystod y cyfnod uchod gan gofio dod ag offer megis beiro ddu neu las, pensil, dilëydd, pren mesur a chyfrifiannell. Rhoddir pob cymorth posib i'r disgyblion yn eu paratoadau gan yr athrawon ar gyfer yr arholiadau. Er mwyn i'ch plentyn adolygu yn effeithiol, hoffwn eich hysbysu am y deunyddiau, "Llyfryn Adolygu ar gyfer Arholiadau – Sut i gefnogi eich plentyn" sydd ar gael ar ein gwefan o dan y cysylltiad canlynol "Rhieni - Cysylltiadau Defnyddiol": https://bit.ly/2IEVgv2

Disgwyliwn i ddysgwyr wneud pob ymdrech wrth sefyll yr arholiadau, fel bod y canlyniadau yn adlewyrchiad cywir o allu a chyrhaeddiad. Ystyrir y marciau a graddau yn ogystal â ffynonellau gwybodaeth eraill yn y broses o ffurfio grwpiau dysgu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Gofynnwn i'r disgyblion ddod â deunyddiau adolygu i'w helpu yn y cyfnodau cyn arholiad.

Dymunwn bob llwyddiant i'r disgyblion yn ystod yr wythnosau nesaf.

Yn gywir,

G.W. Lewis

Mr Geraint Lewis,
Dirprwy Brifathro

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Prifathro / Headteacher
Mr. Trystan Edwards BSc., C.P.C.P.

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ (01443) 57 00 57
gweinyddol@gartholwg.cymru
www.gartholwg.cymru

May, 2018

Dear Parent / Guardian,

Internal Examinations Summer 2018 – Years 7, 8 and 9

Internal examinations will take place in specified subjects during the period of **June 13th - 15th 2018**. These assessments are intended to measure achievement and progress in particular areas of study in these subjects. Specific details of the timing of the various examinations are available via our website: https://bit.ly/2IEKKUf

Year 9 pupils will sit papers in the core subjects of Welsh, English and Mathematics but not in Science. They will also complete papers/tasks in the option subjects chosen for the next academic year.

As per the recent National Tests, we kindly request your assistance in ensuring that your child is present on the above dates, remembering to bring a black or blue biro, pencil, eraser, ruler and a calculator. Students will be given every assistance by their teachers in their preparation for the examinations. In order for your child to revise effectively, we would like to make you aware of the "Revising for Examinations – How to support your child", booklet that is available on our website under "Parents – Useful Links" by clicking the following link: https://bit.ly/2wYuNap

Our expectation is that all learners make every effort during the tests to ensure that the results are an accurate reflection of ability and attainment. The marks and grades will be considered alongside other sources of information in the process of forming the teaching groups for the next academic year. We ask that pupils bring revision materials to aid their preparations in the periods preceding the examinations.

We wish our students every success over the coming weeks.

Yours faithfully,

G.W. Lewis

Mr Geraint Lewis
Deputy Headteacher